

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYE IFANC CYMRU



**PWYLLGOR RHYNGWLADOL
DYDD SUL 3ydd GORFFENNAF 2022
ADEILAD LANTRA, CAFC, 10yb**

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Nerys Lewis

IS-GADEIRYDD: Miss Caitlin Harley

PRESENNOL: Nerys Lewis (Cadeirydd - NL), Caitlin Harley (Is-Gadeirydd - CH), Cathrin Jones (Sir Gâr – CJ), Iestyn Owen (Sir Gâr - IO), Cerys Baker (Gwent – CB), Niall Evans (Cyn Gadeirydd - NE)

HEFYD YN BRESENNOL: Rhianwen Jones (Rhyngwladol a Cystadlaethau – rhan), Hefin Evans (Is-Gadeirydd CFFI – rhan)

I/41/2022 CROESO A CHYFLWYNIADAU'R CADEIRYDD

Agorodd Madam Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb i Faes y Sioe. Gofynnwyd i'r pwyllgor gyflwyno eu hunain gan fod hwn y tro cyntaf i bawb gyfarfod mewn person ers Ionawr 2020.

I/42/2022 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Leah Bevan (Morgannwg), Tomos Lewis (Sir Benfro), Lwsi Morgan (Maldwyn) ac Andrew Spencer (YFA)

I/43/2022 I GADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cafodd y cofnodion eu darllen a'u cadarnhau yn gywir:

Cynigydd: Caitlin Harley

Eilydd: Niall Evans

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

I/44/2022 PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Darllenwyd pwyntiau gweithredu o'r cofnodion blaenorol a nodwyd fel a ganlyn:

Rhianwen i gysylltu gyda Alan o America – mae hyn wedi ei gyflawni. Mae'r ymwelwyr yn hapus i aros yn y Pentref Ieuenctid.

I/45/2022 GOHEBIAETH

Cafwyd e-bost gan CHI (YHA). Hoffent wybod os byddem yn gallu gwneud defnydd o’u llefydd llety. Atotwyd cyswllt i’r e-bost gyda arolwg i’w lenwi. Y sail i’r e-bost yw eu bod yn edrych am gyfleoedd i weithio’n agosach gyda CFFI and yn meddwl sut fyddai hyn yn edrych.

Awgrymwyd y gellir edrych ar breswylfa Fforwm Ieuencid, gyda’r posibilrwydd o rannu Cymru yn 3 rhan, gogledd, canolbarth a’r de. Byddai hyn yn byrhau trafaelio i aelodau a rhieni, ac fe deimlwyd y byddai mwy o aelodau yn ymuno gyda’r trip petai’r trafaelio ddim gymaint o broblem.

I/46/22 I DDERBYN DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN RHYNGWLADOL 2022.

Hysbysebwyd y pwyllgor y bydd 2 aelod yn ymuno gyda ni o Wlster a hefyd 1 aelod o’r Alban fel rhan or cyfnewidiadau teithiau byr. Fe fydd yr aelodau hyn yn ymuno gyda’r ddwy aelod eisioes yma o America.

Mae gennym ddau aelod allan yn America ar hyn o bryd. Mae’r daith yn cael ei hyrwyddo ar eu Instagram personol a gofynwyd y cwestiwn sut y gallwn hyrwyddo’r teithio fwy ar CFFI Cymru i gyrraedd yn eangach.

Awgrymodd NE gymryd drosodd Instagram CFFI Cymru i’w hyrwyddo.

O achos cymhlethdod gyda trefniant trafaelio y saffari, pwysleisiodd y pwyllgor yr angen i’r aelodau sy’n trafaelio i gyd i drefnu yswiriant trafaelio.

Mae cost y Saffari wedi cynyddu gan £425 o’r pris gwreiddiol o achos bod y cwmni a oedd yn trefnu’r hedfan wedi gorffen masnachu

Nid ydym yn siwr ar hyn o bryd os fydd y daith i Ganada yn digwydd eto.

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y syniad o hyrwyddo cyfnewidiadau siroedd a chlybiau. Nodwyd fod y pwnc yma wedi codi yn ystod y pandemic ond heb ei ganlyn.

Gofynnodd IO sut allwn ddatblygu hwn o fewn y mudiad?

Cytunwyd i edrych ar ffurflen i fesur y diddordeb o fewn y rhwydwaith a fyddai’n caniatáu i’r rhai a diddordeb i allu cysylltu gyda’i gilydd.

Gweithred 1: Ffurflen i’w ddatblygu am gyfnewidiadau sirol.

I/47/22 2023 CYFLEOEDD TEITHIO

Codwyd y mater o westeio'r Americanwyr. 'Roedd mwyafrif o'r siroedd wedi ymrwymo aelodau i westeio ond bod yna rhai heb gadarnhau neu gydnabod y gohebiaeth. Nodwyd ei fod yn anodd iawn i gael aelodau i westeio am 2 wythnos ar unrhyw un amser, yn enwedig yr adeg yma o'r flwyddyn o achos ymrwymadau eraill.

O achos yr anhawster o gael rhai i westeio, trafododd y pwyllgor a ddylem edrych ar westeio ymwelwyr sy'n cyrraedd bob blwyddyn neu bob dwy flynedd a fyddai'n caniatáu siroedd i ddod o hyd i westeion ac ddim felly yn ormodol.

Gofynnwyd y cwestiwn ynglyn a - os yn teithio eich hunain a ddylar disgwyl i chi westeio fel rhan o'r amodau teithio? Teimlodd y pwyllgor bod rhyw angen am hyn a dylai gael ei orfodi.

Codwyd pwynt ei fod yn anodd i rai aelodau westeio, felly a fydd cyfle iddynt allu helpu gyda gwesteio yn lle eu gorfodi i westeio.

Teimlodd y pwyllgor y byddai'n fuddiol i gael derbyniad i groesawu'r cyfnewidwyr yng Nghanolfan CFFI ar y dydd Sadwrn cyn y Sioe. Dim byd ffurfiol – efallai BBQ?

Gweithred 2: I ystyried trefnu croeso anffurfiol gyda BBQ ar y dydd Sadwrn cyn y Sioe Frenhinol er mwyn i'r ymwelwyr gael golwg o gwmpas a chael cyfarfod gyda'r pwyllgor cyn y Sioe.

Cytunodd y Cyngor yn flaenorol i gynnal trip sgïo ym mis Ionawr 2022 ond fe fu rhaid ei ohirio o achos Covid. Fe fyddwn felly yn edrych i'w gynnal yn Ionawr 2023. Edrychwyd hefyd ar Contiki i drefnu'r trip yma. Teimlodd y pwyllgor y byddai 4 neu 5 diwrnod yn ddigon ac i edrych ar brisiau dros y Flwyddyn Newydd.

Gweithred 3: Edrych i mewn i brisiau trip sgïo dros y Flwyddyn Newydd

Cytunodd y pwyllgor i gadw'r teithiau cyfnewid byr yn y rhaglen am 2023. O achos yr anhawster ynglyn a gwesteio, gofynnwyd y cwestiwn os fyddai'r rhai sy'n teithio y flwyddyn nesaf yn gallu gwesteio yr un flwyddyn ar ol iddynt ddychwelyd.

Cytunwyd i gadw'r sesiwn astudio, Rali Europeaidd a seminar yr Hydref i'w westeio gan Ieuenctid Gwledig Ewrop.

Teimlodd y pwyllgor y dylai fwy o deithiau grŵp byr gael eu cynnig yn 2023. Mwyafrif posibl o 16 aelod. Ardaloedd i'w hystyried yn cynnwys Ynysoedd Erch, Ynys Wyth, Gweriniaeth Iwerddon, Iseldiroedd, Gogledd Ffrainc ac Ynysoedd y Sianel.

Oherwydd cynydd yn y gost o'r saffari a hefyd ffactorau eraill, teimlodd y pwyllgor na ddylem gynnig taith grŵp hir yn 2023 ac o bosib, gohirio hwn am ryw ddwy flynedd, gan ganolbwyntio ar y teithiau grŵp byr yn y cyfamser.

Cyfleoedd eraill i'w cynnig yn 2023 oedd:

- Canada – os byddai aelodau yn gallu teithio yno y flwyddyn hyn
- Ffindir
- Ysgoloriaeth Godro Seland Newydd
- Edrych ar gyfle cyfnewid gyda'r Almaen a'i drefnu am 2023
- I edrych ar gyfleoedd newydd i aros gyda teuluoedd yn cynnwys Yr Yswisdir ac Awstria.

Cytunwyd i gadw 'Interrailing' yn y rhaglen

Ar ol trafodaeth am yr her Hwyllo a'i rinweddau, cytunodd y pwyllgor i'w drafod gyda Fforwm Ieuencid ac ystyried i'w symud o'r rhaglen. Heb yr her yma, ni fyddai yna gyfleoedd yn y rhaglen rhyngwladol i gynnig i aelodau iau. Felly, cytunwyd i ymchwilio'r posibilrwydd o gynnig preswylfeydd fforwm ieuencid.

Fe fydd rhaid trafod hyn gyda'r pwyllgor Fforwm Ieuencid, ond teimlwyd y byddai hyn yn cynnig cyfleoedd gwell a mwy o gyfle i rhagor o aelodau i fynychu. Awgrymwyd i edrych ar hanner tymor yr Hydref i'r daith gyntaf.

Gweithred 4: Edrych i mewn i westeio preswylfeydd Fforwm Ieuencid erbyn diwedd y flwyddyn.

I/48/22 EITEMAU AGENDA A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd Sadwrn, 17eg Medi 2022 i'w gynnal yn CCB CFFI Cymru

I/49/22 UNRHYW FUSNES ARALL

Dim busnes pellach i'w nodi a datganwyd y cyfarfod yng nhau am 11.50yb.

GWEITHRED	SYLWADAU
Gweithred 1: Ffurflen i'w ddatblygu at gyfnewidiadau Sir a chlybiau.	
Gweithred 2: I ystyried cynnal BBQ croeso anffurfiol ar y dydd Sadwrn cyn y Sioe Frenhinol a fyddai'n rhoi cyfle i'r dirprwyon gael golwg o gwmpas a chyfarfod y pwyllgor cyn y Sioe.	Wedi ei gyflawni gan aelodau'r pwyllgor.
Gweithred 3: I edrych yn fwy manwl ar brisiau taith Sgïo yn 2023	Gan fod FfCCFFI yn cynnal taith Sgïo yn Ionawr 2023, mae CFFI Cymru yn awr yn edrych am syniadau eraill.
Gweithred 4: I drafod yr awgrymiad o deithiau Fforwm Ieuencid preswyl gyda phwyllgor Fforwm Ieuencid.	Wedi ei gyflawni gan aelodau'r pwyllgor.

